




Clybiau
Plant Cymru
Kids' Clubs

FO/09/26

SWYDDOG GRANT A CHYLLID

Pecyn Ymgeisio

I GYRCHU'R PECYN YMA YN
SAESNEG, CLICIWCH YMA

A company limited by guarantee 4296436
Registered Charity 1093260 Working in partnership with:



AMDANOM NI

Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yw'r gyfundrefn genedlaethol ar gyfer Clybiau Gofal Plant All-Ysgol yng Nghymru.

Ein gweledigaeth yw Cymru lle mae plant yn chwarae a chymunedau'n ffynnu.

Ein cenhadaeth yw bod yn llais Clybiau Gofal Plant All-Ysgol yng Nghymru, gan gefnogi hawl plant i chwarae a gofal plant o ansawdd sydd yn gynaliadwy, yn fforddiadwy ac yn diwallu anghenion plant, eu teuluoedd a'u cymunedau.

Am wybodaeth bellach ar ein gwerthoedd a'n nodau strategol i Glybiau All-Ysgol, cliciwch yma.

Mae Clybiau Gofal Plant All-Ysgol yn rhedeg naill ochr i'r diwrnod ysgol ac yn ystod y gwyliau, gan alluogi rhieni/gofalwyr i ddychwelyd i'w gwaith neu hyfforddiant a phlant i fwynhau darpariaeth o ansawdd sy'n canolbwyntio ar chwarae ac wedi ei staffio gan Weithwyr Chwarae cymwysedig. Mae dros 1500 o Glybiau Brecwast, Ôl-Ysgol a Gwyliau Cymraeg, Saesneg a dwyieithog ar hyd a lled Cymru.

Fel elusen gofrestredig, Bwrdd Ymddiriedolwyr gwirfoddol neu Gyfarwyddwyr sy'n gwneud penderfyniadau polisi Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs. Etholir y bobl hyn yn flynyddol a dônt o Glybiau All-Ysgol ar hyd a lled Cymru.

Rydym yn darparu cefnogaeth a hyfforddiant i fusnesau gofal plant:

Cefnogaeth i Fusnesau Gofal Plant

Gallwn helpu unigolion, ysgolion, darparwyr gofal plant presennol, aelodau pwyllgor ac eraill i sefydlu busnesau gofal plant, a chefnogi'r rhai sy'n bodoli eisoes.

Hyfforddiant

Rydym wedi bod yn hyfforddi'r sector Gofal Plant All-ysgol ers dros 20 mlynedd i ddatblygu gweithlu proffesiynol sy'n cofleidio ac yn cefnogi chwarae y mae plant yn ei hunan-gyfarwyddo.

Rydym yn darparu cymwysterau Gwaith Chwarae (Mae NCFE, y corff dyfarnu cymwysterau, yn ein graddio'n 'rhagorol'. Hefyd Datblygiad Proffesiynol Parhaus ac ystod o weithdai gweithgaredd yn seiliedig ar chwarae. Gweler ein digwyddiadau a'n Cyfarwyddiadur hyfforddi diweddaraf [yma](#).

MANTEISION GWEITHIO GYDA NI

Profwch y gwahaniaeth a wna Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs

Effaith sydd o Bwys:

Profwch wir lawenydd cael barhaol ar fywydau ifanc.

Yn Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs byddwch yn rhan o dîm sy'n creu Cymru lle gall plant chwarae a chymunedau ffynnu.

Eich Amser i Ymlacio

Mwynhewch egwyl cwbl haeddiannol gyda'n pecyn gwyliau hawl. Rydym yn credu mewn cydbwysu bywyd a gwaith, ac yn sicrhau eich bod yn cael amser i ail-gyfnethu a mwynhau bywyd y tu hwnt i'r gweithle.

Hyblygrwydd sy'n Hwylus:

Rydym yn deall y gofynion sydd arnom mewn bywyd. Cewch gofleidio gyrfa llawn boddhad gan hefyd fwynhau'r hyblygrwydd sydd ei angen arnoch drwy ein cynlluniau Amser o'r Gwaith â Thâl a Gweithio Ystwyth. Mae eich llesiant o bwys, ac rydym ni yma i'ch cefnogi ar eich taith.

Rhyddhewch eich Potensial: :

Agorwch y drws i fyd o dyfiant drwy ein hyfforddiant cynhwysfawr a'n rhaglenni datblygu.

Yn Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, buddsoddwn yn eich sgiliau, gan sicrhau eich bod yn cyrraedd eich potensial i'r eithaf.



Arolwg Staff 2026

100 % YN CYTUNO
Dwi'n teimlo mod i'n cael fy annog i feddwl am ffyrdd newydd a gwell o wneud pethau

100 % YN CYTUNO
Mae fy swydd yn gwneud defnydd da o'm sgiliau a'm galluedd

100 % YN CYTUNO
Mae'r sefydliad yn cefnogi ac yn cydnabod anghenion unigol (CAC)

100 % YN CYTUNO
Mae'r sefydliad yn arddangos yn weledol ymrwymiad i ansawdd

CLYBIAUPLANTCYMRU.ORG
REGISTERED CHARITY/ELUSEN GOFRESTREDIG: 10932601
COMPANY LIMITED BY GUARANTEE/CWMNI CYFYNGEDIG
TRWY WARANT: 4290436



MANTEISION GWEITHIO GYDA NI

Er mwyn eich llesiant

Trefniadau gweithio hyblyg, gweithio hybrid, cyfleoedd hyfforddi a datblygu yn ogystal â mynediad at ein Hyb Lles a Hyrwyddwyr Iechyd Meddwl, cyfarfodydd goruchwyllo misol gyda'ch rheolwr llinell ac arfarniadau blynyddol.

Er mwyn eich iechyd

28 diwrnod o wyliau pro rata ynghyd â gwyliau cyhoeddus (pro-rata ar gyfer gweithio rhan-amser) ynghyd â manteision ychwanegol yn seiliedig ar hyd y gwasanaeth a ddaw ar gael am 3 blynedd o wasanaeth a 5 mlynedd o wasanaeth sy'n cynnwys diwrnodau gwyliau blynyddol ychwanegol a mynediad i Perkbox. Rydym hefyd yn darparu yswiriant iechyd corfforaethol trwy Simply Health lle, ar ôl cyfnod prawf o chwe mis, mae gweithwyr sydd wedi'u cadarnhau yn eu swydd yn cael Yswiriant Simply Health – yn rhad ac am ddim – a'r opsiwn i dalu am yswiriant ychwanegol ar gyfer priod / partner a phlant.

Er mwyn eich diogeledd ariannol

Mae Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yn gweithredu cynllun pensiwn rhanddeiliaid ar y cyd ag Aviva. Gall cyflogeion, yn amodol ar rai meini prawf cymhwysedd, ymuno â'r cynllun pensiwn. Bydd cyflogeion cymwys yn cael cyfraniad o 6% tuag at eu pensiwn gan Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, cyhyd â bod y cyflogai'n cyfrannu 2% o'i gyflog crynswth sylfaenol i'r cynllun. Hefyd tâl mamolaeth estynedig, tâl tadolaeth a thâl mabwysiad.

Telir lwfans milltired tra ar fusnes Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs. Yn ogystal telir treuliau parod, cyfyngedig, am deithio a chynhaliath tra byddir ar fusnes Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs. Ôl-delir treuliau yn fisol.



SUT BETH YW GW ITHIO I CLYBIAU PLANT CYMRU KIDS' CLUBS?



“

Rwy'n cael bod y cytundeb gweithio ystwyth ynghyd â'r system TOIL yn cyd-fynd yn dda â'm hymrwymadau ac yn rhoi cydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith. Mae fy rôl yn rhoi boddhad i mi ac rwy'n mwynhau bod yn rhan o dîm sy'n cyd-dynnu.

”

“

Rydw i wir yn mwynhau gweithio i Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, mae'r fîm i gyd yn gyfeillgar ac yn wych i weithio gyda nhw. Rwy'n mwynhau fy rôl fel Swyddog Datblygu Busnes Gofal Plant yn cefnogi llywodraethu, cynaliadwyedd ac ansawdd mewn clybiau Gofal Plant y tu allan i oriau ysgol, gan fod fy ngwaith yn amrywiol iawn ac nid oes dau ddiwrnod yr un fath. Rwy'n cael pleser gwirioneddol o gefnogi'r sector, yn ogystal â gwybod fy mod yn gwneud gwahaniaeth i roi gofal plant cynaliadwy o safon a phrofiadau chwarae mewn Clybiau Gofal Plant All-Ysgol.



”



“

Fel aelod newydd o'r fîm rydw i wedi cael croeso gyda breichiau agored ac yn teimlo fel pe bai'r rhan o'r fîm wedi bod yma am gyfnod byr yn unig. Mae'n lle hyfryd, prysur i weithio ac mae pawb wedi bod yn gyfeillgar a chefnogol iawn.

”

RÔL Y SWYDDOG GRANT A CHYLLID

Mae Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yn dymuno penodi Swyddog Grant a Chyllid rhan-amser (18.5 awr), i'w leoli yn ein swyddfa yn nail Caerdydd, Crosshands neu Bae Colwyn, gyda chytundeb gweithio ystwyth yn ei le.

Mae'r cyflog o £33,366 (£34,433 yn ôl y gyfradd ar ôl derbyn cadarnhad mewn swydd) wedi ei seilio ar wythnos 37 awr, yn daladwy'n fisol drwy drosglwyddiad credyd. Mae oriau hyblyg yn ofynnol i'r swydd hon, a gallai gynnwys nosweithiau, penwythnosau a nosau achlysurol oddi cartref. Mae 28 diwrnod o wyliau yn ôl y gyfradd ynghyd â gwyliau cyhoeddus. Rhed y flwyddyn wyliau o 1 Medi i 31 Awst.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn atebol i'r Prif Swyddog Gweithredol.. Mae prif gyfrifoldebau'r Swyddog Grant a Chyllidwedi eu rhestru yn y meini prawf gwerthuso. Bydd arnoch angen dealltwriaeth o becynnau Windows a Microsoft, gan cynnwys Word, Excel, Outlook a Teams, a bod yn barod i ddysgu am – a defnyddio – pecynnau meddalwedd newydd a systemau monitor ar-lein.

Prif ffocws y rôl yw gosod, cydlynu a rheoli strategaeth cyllid cenedlaethol y sefydliad, gan diogelu cyllid cynaliadwy er mwyn sicrhau cyllid cynaliadwy i gefnogi blaenoriaethau sefydliadol a galluogi parhad rolau, gwasanaethau a phrosiectau allweddol.

Dylai fod gan yr ymgeisydd llwyddiannus ymagwedd hyblyg at waith a gallu addasu i bwysau, terfynau amser a llwythi gwaith amrywiol. Rydym yn ceisio cyflogi unigolyn sy'n awyddus i ddysgu a chyflawni ei botensial drwy ddatblygu i ateb y manylion a nodir yn y meini prawf gwerthuso. Byddwn yn gweithio gyda'r unigolyn i ddeall a bodloni gofynion y rôl, parhau â'i ddatblygiad proffesiynol a thyfu gyda'r tîm a'r sefydliad.

Mae pob gweithiwr yn chwarae rhan hanfodol wrth hyrwyddo cynllun strategol y sefydliad.

Os ydych yn awyddus i ymuno â'n tîm; yn flaengar, brwdfrydig, egnïol, a hyblyg yn eich agwedd at waith, edrychwn ymlaen at dderbyn eich cais.

Mae pob cynnig o gyflogaeth yn amodol ar eirida boddhaol a chyfnod prawf o chwe mis.

Mae pob cynnig cyflogaeth yn amodol ar eirida boddhaol a chyfnod prawf o chwe mis. Bydd angen gwiriad DBS Uwch cyn dechrau'r swydd, a chaiff y gost ei thalu gan Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs.

Mae sicrhau cyllid parhaus yn her gydnabyddedig yn y sector gwirfoddol. Mae Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yn derbyn cyfuniad o gyllid craidd a chyllid prosiect gan Llywodraeth Cymru, a chyllid ychwanegol wedi'i gomisiynu gan rai Awdurdodau Lleol i gefnogi datblygiad Gofal Plant All-Ysgol yn eu siroedd, a chyllid prosiect gan elusennau ac ymddiriedolaethau. Bydd angen i'r Swyddog Cyllid nodi, datblygu a sicrhau cyllid parhaus yn rhagweithiol er mwyn cynnal rôl y Swyddog Cyllid a chefnogi darpariaeth barhaus blaenoriaethau strategol y sefydliad.

DISGRIFIAD SWYDD

Teitl y Swydd

Swyddog Grant a Chyllid

Lleoliad

Wedi'i lleoli yn un o'n swyddfa yng Nghaerdydd, Bae Colwyn neu Cross Hands, gyda pholisi gwaith ystwyth yn ei le

Oriau Gwaith

18.5 awr yr wythnos (Dydd Llun – Dydd Gwener)

Yn Atebol I'r

Prif Swyddog Gweithredol

Cyfradd Dâl

£33,366 (£34,433.71 ar lwyddo i dderbyn cadarnhad mewn swydd, fel arfer wedi 6 mis)

TASGAU A CHYFRIFOLDEBAU ALLWEDDOL

I weithredu, cydlynw a rheoli strategaeth ariannu genedlaethol y sefydliad, gan sicrhau cyllid cynaliadwy i gefnogi blaenoriaethau'r sefydliad a galluogi parhad mewn rolau, gwasanaethau a phrosiectau allweddol.

1. Datblygu strategaeth ariannu genedlaethol i nodi a gweithredu dull o ddarparu cynaliadwyedd ariannol hirdymor i'r sefydliad.
2. Nodi cyllidwyr, meini prawf grantiau ymchwil a chynnig ceisiadau ariannu yn unol â'r strategaeth ariannu.
3. Arwain proses ysgrifennu cynigion y sefydliadau, gan weithio mewn partneriaeth â'r Tîm Arweinyddiaeth a phartneriaid allanol, i greu cynigion a dogfennaeth sydd wedi'u halinio'n strategol ar gyfer darpar gyllidwyr.
4. Nodi noddwyr masnachol posibl, ymddiriedolaethau elusennol a chyllidwyr / partneriaid posibl eraill.
5. Nodi asiantaethau cymorth busnes lleol a chenedlaethol a sefydliadau menter i ddarparu ffynhonnell gyfeirio gydlynol ar gyfer staff y sefydliad a Chlybiau Gofal Plant All-Ysgol.
6. Darparu canllawiau, hyfforddiant a chefnogaeth i staff ar arferion gorau ysgrifennu grantiau a gweithdrefnau ceisiadau ariannu i wella effeithiolrwydd sefydliadol wrth sicrhau cyllid.


SGILIAU A PHROFIAD CRAIDD

Hanfodol

- Profiad profedig o sicrhau cyllid grant i ysgogi twf cynaliadwy a datblygiad sefydliadol.
- Dealltwriaeth o brosesau ariannu llywodraeth genedlaethol a lleol.
- Sgiliau wrth ddatblygu a gweithredu strategaeth ariannu gynhwysfawr, gan gynnwys gosod nodau, amserlenni a chynlluniau gweithredu ar gyfer ceisiadau ariannu cenedlaethol a rhanbarthol.
- Sgiliau cyfathrebu rhagorol, ar lafar ac yn ysgrifenedig.
- Profiad o weithio mewn partneriaeth i gyflawni canlyniadau sy'n seiliedig ar brosiectau.
- Gwybodaeth ragorol am gynllunio a chostio prosiectau cymwysladau taenlen a siart Gannt.
- Addysg hyd at lefel gradd neu gyfwerth a/neu brofiad profedig o godi arian.
- Gwybodaeth am ddiwylliant Cymru a'i weithrediad, yng nghyd-destun materion gofal plant a chwarae, a rôl Clybiau Gofal Plant All-Ysgol, o fewn yr agenda economaidd.
- Gwybodaeth a dealltwriaeth o reoliadau, gofynion a deddfwriaeth arall cyfredol AGC, e.e. CCUHP, amddiffyn plant, diogelu, iechyd a diogelwch a chyfle cyfartal a gwrth-hilioldeb.
- Sgiliau cyfathrebu da, ar lafar ac yn ysgrifenedig, a'r gallu i weithio gydag amrywiaeth o wahanol bobl o arweinwyr clwb ac aelodau pwyllgor i bersonél awdurdod lleol ac aelodau tîm eraill.
- Y gallu i ysbrydoli a chymell eraill.
- Y gallu i weithredu ar eich menter eich hun, rheoli eich llwyth gwaith eich hun a gweithio fel rhan o dîm.
- Y gallu i gynnal systemau a chofnodion ar gyfer gweinyddu adroddiadau'n effeithiol.
- Llythrennedd cyfrifiadurol gan gynnwys defnyddio cronfeydd data.

Dymunir

- Y gallu i siarad ac ysgrifennu Cymraeg.



MEINI PRAWF CYMHWYSEDD

AMCAN 1.

Datblygu strategaeth ariannu genedlaethol i nodi a gweithredu dull o sicrhau cynaliadwyedd ariannol hirdymor i'r sefydliad.

MEINI PRAWF PERFFORMIAD

- Llunio strategaeth ariannu sefydliadol ar y cyd â'r Tîm Arwain a'r Bwrdd Ymddiriedolwyr.
- Llunio cynllun gweithredu yn unol â'r strategaeth ariannu, er mwyn cynllunio ceisiadau am gyllid a fydd yn cynnwys ceisiadau cenedlaethol a rhanbarthol i gefnogi'r sefydliad a'r Clybiau Gofal Plant All-Ysgol.
- Ymchwilio a llunio adroddiadau ar gyfer y Prif Swyddog Gweithredol a'r Bwrdd Ymddiriedolwyr ynghylch ffynonellau cyllid newydd ar gyfer gwahanol lefelau o gyllid.

AMCAN 2.

Nodi cyllidwyr a meini prawf grantiau ymchwil, a chynnig ceisiadau am gyllid yn unol â'r strategaeth ariannu.

MEINI PRAWF PERFFORMIAD

- Cydlynu a chynnal cronfa ddata neu system o'r ceisiadau am gyllid a wnaed ledled Cymru a'u canlyniadau.
- Bod y prif bwynt cyswllt ar gyfer cyfleoedd ariannu, gan gynnwys Funding Wales, Community Foundation Wales, Sell2Wales a Proactis. Cadw'n ymwybodol o'r cyllid sydd ar gael ac ymchwilio'n ddyfnach i'r manylion, ac yna rhannu cyfleoedd addas gyda'r holl staff ac, o bosibl, clybiau.
- Drafftio cynigion prosiect bras ar gyfer cyllidwyr a nodwyd, gan weithio gydag aelod perthnasol o'r Uwch-dîm i sicrhau bod y cynigion yn diwallu anghenion eu hadran ac wedi'u teilwra i ofynion penodol y cyllidwyr.

AMCAN 3.

Arwain proses ysgrifennu ceisiadau'r sefydliad, gan weithio mewn partneriaeth â'r Tîm Arweinyddiaeth a phartneriaid allanol, i greu cynigion a dogfennau sy'n cyd-fynd â'r strategaeth ar gyfer darpar gyllidwyr.

MEINI PRAWF PERFFORMIAD

- Ysgrifennu ceisiadau cyllido manwl, perswadiol, gan ddilyn amlinelliad y prosiect y cytunwyd arno, i gynnwys costau ac amserlen gywir wedi'u hariannu'n llawn, sicrhau cydymffurfiaeth â chanllawiau'r cyllidwyr i wneud y mwyaf o'r gyfradd llwyddiant.
- Adolygu'r holl ffurflenni cais am gyllid, cynigion a grantiau i gynnal safonau uchel cyn eu prosesu a'u cyflwyno i'w cymeradwyo gan y Prif Swyddog Gweithredol, gan sicrhau cywirdeb mewn ceisiadau,
- Gweithio gyda'r tîm cyllid a'r tîm uwch i sicrhau bod yr holl geisiadau cyllido yn cyd-fynd ag anghenion cyllidebol y sefydliad ac yn adlewyrchu'n gywir ddyraniad adnoddau a rhagamcanion ariannol.
- Sefydlu cyfarfodydd cychwyn prosiect i sicrhau bod rheolwyr prosiect ac eraill yn sicrhau dogfennaeth gywir a chynhwysfawr o ganlyniadau prosiect, gwariant ariannol, effaith gyffredinol a monitro ac adrodd yn unol â gofynion a therfynau amser y cyllidwr.

AMCAN 4.

Nodi noddwyr masnachol posibl, ymddiriedolaethau elusennol a chyllidwyr neu bartneriaid posibl eraill.

MEINI PRAWF PERFFORMIAD

- Creu cronfa ddata/system o sefydliadau a chysylltiadau rhanbarthol a chenedlaethol a all gefnogi Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs.
- Ymchwilio i noddwyr posibl a chysylltu â nhw ar gyfer y seremoni wobrwyo flynyddol/gwobrau arolwg.
- Hyrwyddo prynu lle i hysbysebu yn *Y Bont*.
- Archwilio partneriaid posibl i ddarparu manteision aelodaeth.

AMCAN 5.

Nodi asiantaethau cymorth busnes a sefydliadau menter lleol a chenedlaethol er mwyn darparu ffynhonnell gyfeirio gydlynol ar gyfer staff y sefydliad a Chlybiau Gofal Plant All-Ysgol.

MEINI PRAWF PERFFORMIAD

- Creu adnodd sy'n rhestru asiantaethau cymorth posibl ar gyfer y sector, y gellir ei ddarparu i staff ac aelodau ar ffurf electronig a'i rannu mewn bwletinau wythnosol.
- Paratoi cynnwys ar gyfer tudalen mewn cylchlythyr chwarterol – a anfonir at bob clwb a'r holl staff – sy'n amlinellu ffynonellau cyllid sydd ar gael, awgrymiadau ar gyfer gwneud ceisiadau, a manylion am yr hyn sy'n gwneud cais am gyllid yn 'dda'.
- Sicrhau bod cyfleoedd cyllid newydd ar ein gwefan yn cael eu diwedddaru'n wythnosol i gyd-fynd â'r bwletin.

AMCAN 6.

Darparu arweiniad, hyfforddiant a chymorth i staff ar arferion gorau wrth lunio ceisiadau am grantiau a gweithdrefnau gwneud cais am gyllid.

MEINI PRAWF PERFFORMIAD

- Gweithio gyda Swyddogion Datblygu Busnesau Gofal Plant (CBDOs) i ddarparu arbenigedd a gwybodaeth i gynorthwyo gyda'r broses ymgeisio am grantiau.
- Cynghori staff ar geisiadau a chynnal hyfforddiant ar gyllid mewn cyfarfodydd priodol er mwyn gwella effeithiolrwydd y sefydliad wrth sicrhau cyllid.

SUT I YMGESIO

Mae cynigion cyflogaeth yn amodol ar eiradaon boddhaol, gwiriadau hunaniaeth a gwiriadau DBS (os yn gymwys) ar y lefel briodol.

CWBLHEWCH Y CAIS ELECTRONIG YMA

CWBLHEWCH Y FFURFLEN MONITRO CYFLE CYFARTAL YMA

Gwyddom y gall cyfweiliadau fod yn brofiad brawychus. Os cewch eich rhoi ar y rhestr fer, rydym am eich gwneud yn gyfforddus drwy:

- Cynnig y cyfle i siarad ag aelod o'r tîm cyn y cyfweiliad i sgwrsio.
- Ymrwymo i ddeall yn llawn unrhyw anghenion ychwanegol a/neu unrhyw ofynion mynediad sydd gennych a rhoi unrhyw ofynion angenrheidiol yn eu lle o fewn amser da.
- Rhannu fformat y cyfweiliad a'r hyn a ddisgwylir gennych ymlaen llaw, er mwyn i chi allu paratoi'n dda, a theimlo'n fwy cyfforddus a rheolaethol, a fydd hefyd yn ein helpu i gael y gorau ohonoch.
- Sicrhau panel cyfweld sy'n gynrychioliadolol o'r.

Rydyn ni am i'r profiad fod yn un dymunol y byddwch chi'n myfyrio arno'n gadarnhaol waeth beth fo'r canlyniad. Edrychwn ymlaen yn fawr at ddarllen amdanoch, i ddod i'ch adnabod ymhellach.

Byddwn yn rhoi gwybod i chi! P'un a ydych yn llwyddiannus ai peidio ar bob cam o'r rhestr fer, byddwn mewn cysylltiad â'r camau nesaf ac yn hapus i gynnig adborth i chi ar eich cais/cyfweiliad.

Y dyddiadau allweddol:

- Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau – 13/09/2026
- Gwahodd ymgeiswyr i gyfweiliad erbyn – 16/09/2026
- Cynhelir cyfweiliadau yn ystod yr wythnos yn dechrau – 21/09/2026

I gael cymorth gyda'ch cais neu i drafod y broses recriwtio gallwch gysylltu â'n Uwch Weinyddwr Cyffredinol cyfeillgar Becci.



02920 741000



recruitment@clybiauplantcymru.org



**Mae Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yn
bodoli i helpu cymunedau yng Nghymru drwy
hyrwyddo, datblygu a chefnogi clybiau gofal
plant all-ysgol sydd o ansawdd, yn
fforddiadwy ac yn hygyrch.**

Rydym yn gyfundrefn Gymru-eang sy'n helpu i sefydlu, datblygu a chefnogi clybiau gofal
plant all-ysgol. Rydym yn helpu clybiau, neu ddarpar glybiau, i wneud ceisiadau a gyllid ac
rydym yn hyfforddi a chefnogi staff yn ystod sefydlu clwb ac yna yn ei rediad.

POB HWYL GYDA'CH CAIS!

www.clybiauplantcymru.org